


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau

## Ffenestr 3

## Cais am Grant

## Canllaw Sut i Gwblhau

# Cynnwys

**Gwybodaeth** .......... **3**
**Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein** .......... **4**
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein .......... 4
**Tudalen Hafan** .......... **5**
Tudalen Ffurflenni .......... 8
**Cais Grant Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** .......... **8**
Parhau a'r Cais / Dechrau Eto .......... 9
Cyflwyniad .......... 11
Hysbysiad Preifatrwydd .......... 12
**Cynllun y Busnes/Prosiect** .......... **13**
Cynllun y Busnes/Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad .......... 14
Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni'r Prosiect .......... 17
Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni – Risg a Rheoli Risg .......... 19
Cynllun y Busnes/Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor .......... 21
Cynllun y Busnes/Prosiect – Gwerth am Arian .......... 21
Y Grantiau Mwyaf a Lleiaf .......... 27
Cynllun y Busnes/Prosiect – Themâu Trawsbynciol .......... 28
Cynllun Busnes/Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau .......... 29
Dangosyddion a Chanlyniadau .......... 31
Cynllun y Busnes/Prosiect – Ariannol a Chydymffurfio .......... 35
Rhestr o Ddogfennau Atodol sydd eu hangen .......... 37
**Cyflwyno** .......... **37**
Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb .......... 37
Datganiad ac Ymrwymiadau .......... 40
Cyflwyno .......... 41
**Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus** .......... **42**
Beth fydd yn digwydd nesaf? .......... 42

**Cysylltiadau** .......... **45**
RPW Ar-lein .......... 45
Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid .......... 45

**Rhif y Fersiwn: 2**
**Dyddiad cyhoeddi: Medi 2025**
**Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru**
**© Hawlfraint y Goron 2024**

**ISBN:** 978-1-83625-211-5

# Gwybodaeth

Bydd y canllaw hwn yn disgrifio’r camau ar gyfer llenwi  Ffurflen Gais ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau a’i chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dim ond cwsmeriaid dethol y bydd yn gallu ymgeisio ar-lein am y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau.  Fodd bynnag, os na fydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod eich bod wedi derbyn eich detholiad o fewn 14 diwrnod i'w chynnig, caiff y cais ar-lein ei dynnu'n ôl.

Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen ar-lein gan roi manylion eich prosiect i Lywodraeth Cymru a chyflwyno'r dogfennau ategol angenrheidiol fel y gall eich cais fod yn destun gwerthusiad llawn er mwyn ystyried y posibilrwydd o ddyfarnu contract a grant ichi.

Darllenwch y canllaw hwn yn ofalus. Bydd angen ichi gyfeirio at y Nodiadau Canllaw hefyd.

Ni fydd y ffigur grant terfynol a ddyfernir yn uwch na'r hyn a nodir yn y cais Datgan Diddordeb a lle bo'n berthnasol bydd wedi'i gapio i £50,000.

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig drwy RPW ar-lein.  Bydd y cais ar-lein ar gael i'w gwblhau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 12 wythnos cyn i’r cyfnod ymgeisio ddod i ben fel y nodwyd yn y llythyr dethol.  Ni fydd cyfle i gael estyniad.

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr aros tan ddiwedd cyfnod ymgeisio.  Argymhellir yn gryf bod y cais yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.  Bydd y gwerthusiad yn dechrau cyn gynted ag y bydd y cais wedi'i gwblhau'n llawn a bydd yr holl ddogfennau ategol wedi dod i law.

bydd angen i ymgeiswyr ymateb i gwestiynau am:

- Addasrwydd y buddsoddiad
- Cyflawni’r Prosiect
- Risg a rheoli risg
- Cynaliadwyedd hirdymor
- Gwerth am arian
- Materion ariannol a chydymffurfiaeth

Hefyd bydd y ffurflen gais yn gofyn ichi egluro sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at themâu trawsbynciol canlynol Llywodraeth Cymru:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd
- Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol
- Y Gymraeg

Dyma’r dangosyddion a chanlyniadau’r buddsoddiad a fydd yn cael eu monitro:

- Nifer y swyddi sydd wedi'u creu neu
- Nifer y swyddi sydd wedi’u diogelu

- Cyfaint y storfa slyri newydd sydd wedi'i osod
- Arwynebedd y to sydd wedi'i osod
- Nifer yr eitemau gwasgaru maethynnau yn fanwl sydd wedi'u cefnogi.

Yn ogystal â llenwi'r ffurflen gais lawn ar-lein, bydd angen ichi gyflwyno'r dogfennau ategol canlynol ar-lein i'w harfarnu gan Lywodraeth Cymru o fewn 12 wythnos ichi gael eich hysbysu eich bod wedi cael eich dewis:

- Tystiolaeth i ddangos eich capasiti presennol ar gyfer storio slyri a'ch gofion ar gyfer storio slyri yn y dyfodol mewn perthynas â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.
- Y cyfrifon ardystiedig diweddaraf (am y flwyddyn ariannol flaenorol).
- Dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem a ddewisir yn y datganiad o ddiddordeb yn unol â'r rheolau ar gyfer tendro a chaffael cystadleuol.
- Tystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael.
- Tystiolaeth eich bod wedi cyflwyno eich cais cynllunio.
- Caniatâd cynllunio os yw hynny'n briodol ac ar gael.
- Cymeradwyaeth gan gorff gymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) os yw hynny'n briodol ac ar gael.
- Os ydych yn cyflwyno cais am sianeli o dan y llawr, toeau dros iardiau presennol ac adnewyddu iardiau da byw, dylech ddarparu ffotograffau o leoliad y prosiectau hyn.

Ni fydd y broses asesu'n dechrau nes bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cais a'r HOLL ddogfennau ategol. Cewch ddarparu dogfennau a thystiolaeth arall yn ogystal â'r uchod er mwyn cefnogi eich cais.

Noder: Ar gyfer unrhyw broblemau gyda RPW Ar-lein dylech gysylltu â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl at y Cynnwys


# Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllaw ar sut i gofrestru i gael rhagor o fanylion. Gallwch newid y rhan fwyaf o fanylion eich busnes ar-lein. Ond os ydych am gofnodi newidiadau mawr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn ichi am ragor o fanylion. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

**Mewngofnodi gan Ddefnyddio Porth y Llywodraeth**

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Enw Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os byddwch yn wynebu unrhyw anawsterau neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Tudalen Hafan

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG: EWROP YN BUDDSODDI MEWN ARDALEODD GWLEDIG

THE EUROPEAN AGRICULTURAL FUND FOR RURAL DEVELOPMENT: EUROPE INVESTING IN RURAL AREAS

CRN:

English Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 12 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach

**Yn sgil Covid-19 mae'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau SAF a Glastir - Tim Comin a'r dogfennau ategol wedi'i estyn hyd 15 Mehefin.** Bydd cosbau am gyflwyno'n hwyr yn berthnasol o 16 Mehefin hyd 10 Gorffennaf. Nid yw'r geiriad yn y cais wedi'l ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r dyddiadau newydd hyn. 15 Mai yw'r dyddiad datgan o hyd ar gyfer tir rydych yn ei ddefnyddio.

**Mae gofynion BPS o ran gwyrddu ar gyfer tyfu amrywiaeth o gnydau wedi'u dileu yn sgil y tywydd eithriadol a Covid-19.** Mae'n bosibl y bydd y SAF yn parhau i ddangos rhybuddion ynghylch tyfu amrywiaeth o gnydau – gallwch anwybyddu'r rhain. Mae gofynion eraill o ran gwyrddu, gan gynnwys tir glas parhaol ac AFfE yn parhau mewn grym; peidiwch ag anwybyddu'r rhybuddion hyn gan y bydd methiant i fodloni'r gofynion hyn yn effeithio ar eich taliad gwyrddu.

**Ar ôl i chi orffen eich sesiwn ar-lein, sicrhewch eich bod wedi allgofnodi a chau'r porwr.**

**Wrth lenwi ceisiadau, gofalwch beidio â phwyso botwm yn ôl eich porwr.**

**Negeseuon** Rhyngoch chi ag RPW

Heb ei ddarllen **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**

Ffurflen Cais Sengl : Single Application Form

Ffurflen Cais Sengl - Crynodeb : Single Application Form

**Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**

Crynodeb o'r Ffurflen Fwyd RBIS : Rural Business Investment Scheme - Food Form

**Dolenni defnyddiol**

BCMS

Ffermio a gwybodaeth cynllun

TB mewn gwartheg


Symud ac adnabod anifeiliaid fferm

Cyswllt Ffermio

Map o'n swyddfeydd

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop

Yn yr adran Dechrau Ffurflen ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw perthnasol y cynllun yr hoffech wneud cais amdano. Bydd Ffurflen Gais y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau ar gael yma tan ddyddiad cau'r cyfnod ymgeisio.



**Dechrau ffurflen**

Ffurflen Cais Sengl 2022 Ar gael hyd at 13/08/2022. 10 diwrnod ar ôl.

Ail-werthusiad Newid Prosiect Ar gael unrhyw bryd

Amrywiad i Gontract FCERM Ar gael hyd at 31/12/2050. 10377 diwrnod ar ôl.

Apêl Ar gael unrhyw bryd

Cais i Newid Prosiect Ar gael unrhyw bryd

Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant Ar gael hyd at 31/12/2099. 28274 diwrnod ar ôl.

Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau – Datganiad o Ddiddordeb Ar gael hyd at 31/12/2099. 28274 diwrnod ar ôl.

DOD Cynllun Adfer Coetir Ar gael hyd at 31/12/2099. 28274 diwrnod ar ôl.

DOD Cynllun Cynllunio Creu Coetir Ar gael hyd at 31/12/2022. 150 diwrnod ar ôl.

Datgan Diddordeb Grant Busnes i Ffermydd Ar gael hyd at 31/12/2099. 28274 diwrnod ar ôl.

Datgan Diddordeb Grant Cynhyrchu Cynaliadwy Ar gael hyd at 01/01/2050. 10013 diwrnod ar ôl.

Datganiad o Ddiddordeb – Troi'n Organig Ar gael hyd at 31/12/2022. 150 diwrnod ar ôl.

Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth Ar gael hyd at 31/12/2099. 28274 diwrnod ar ôl.


Ffurflen Hawlio Grant Ar gael hyd at 31/03/2023. 240 diwrnod ar ôl.

Ffurflen Mynegi Diddordeb Adfer Coetir Glastir Ar gael hyd at 29/09/2022. 57 diwrnod ar ôl.

Ffurflen Mynegi Diddordeb Creu Coetir Glastir Ar gael hyd at 31/12/2099. 28274 diwrnod ar ôl.

Grant Busnes i Ffermydd - EOI Cynllun Gorchuddio Iardiau Ar gael hyd at 31/12/2050. 10377 diwrnod ar ôl.

Neu gallwch clicio ar y tab '**Ffurflenni**' ar eich tudalen hafan a'i ddewis o'r fan hon.





Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr Iaith ar unrhyw amser cliciwch y botwm ar y bar ar gornel dde uchaf Gwybodaeth RPW Ar-lein. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddewis iaith eich Ffurflen Cais Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau.

Yn ôl at y Cynnwys

## Tudalen Ffurflenni

Unwaith y byddwch wedi dewis y tab ‘Ffurflenni’ cewch weld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.





Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis y ffurflen yr hoffech ei chyflwyno.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cais Grant Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau

### Sut i Ddechrau

Unwaith y byddwch wedi darllen y Llyfryn Rheolau Cyffredinol Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau yn [Grantiau a Thaliadau Gwledig Llywodraeth Cymru]. Cliciwch y botwm ‘**Dechrau’** i ddechrau eich Datganiad o Ddiddordeb.


Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRN:

English | Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 43 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

**Dechrau Cais** dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn i gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant -**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**

Dewisiadau Ar-lein
**E-bost ynte neges destun (SMS)**
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**


Dechrau | Canslo

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd

Mae'r dudalen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth cyn dechrau'r cais. Mae'n cynnwys dolen i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid os oes angen, a Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein sydd gennym ar eich cyfer. Dylech wirio a diwygio'r rhain cyn dechrau eich cais os ydynt yn anghywir.

# Parhau a'r Cais / Dechrau Eto

Ar ôl i chi ddechrau eich cais, gallwch ddewis ei adael a dychwelyd ato yn nes ymlaen. Os ydych yn dychwelyd at gais rydych wedi'i gychwyn o'r blaen, ar y sgrin hon fe fyddwch yn awr yn gallu Parhau (y botwm glas ar waelod y sgrin) neu byddwch yn gallu Dechrau Eto trwy glicio ar y ddolen a ddangosir yn y sgrin lun hwn.



Llywodraeth Cymru Welsh Government RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRN:

English | Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 43 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant -** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant -**

Cewch ddewis dileu'ch **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant** a llenwir y **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid


Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol

Parhau i weithio ar **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant - 9933892** a gafodd ei ddiweddaru ar 11/09/2024 am 11:25 gan Charlies Estate Agent

Parhau | Yn ôl

Cofiwch – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau a atebwyd gennych a bydd yn cael gwared â'r holl wybodaeth a ychwanegwyd.

Os ydych yn siŵr eich bod yn dymuno Dechrau Eto, cliciwch ar Ydw, neu fel arall cliciwch ar Na, fel y dangosir yn y sgrin lun hwn:





[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cyflwyniad

Dyma'r dudalen gyflwyno lle cewch wybodaeth am gynllun y Grant Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau.  I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth a gynhwysir ar y dudalen hon, darllenwch Lyfryn Rheolau Cyffredinol Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau yn yr adran Grantiau a thaliadau gwledig ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith fe welwch wahanol adrannau.  Mae croes goch yn arwydd nad ydych wedi mynd i mewn i bob adran eto, neu fod gwall i'w gael o fewn yr adran(nau).  Bydd tic gwyrdd yn ymddangos ar ôl i chi lenwi pob adran a phan na fydd unrhyw wall i'w gael.  Ceir nifer o fotymau llywio ar frig a gwaelod y ffurflen.  Hefyd, os dymunwch symud yn ôl a blaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, fe welwch fotwm ar gyfer gwneud hyn ar waelod y sgrin, ar y chwith, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.





Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar y dudalen 'Hysbysiad Preifatrwydd' nodir eich hawliau a'r hyn y bydd angen i ni ei wneud â'ch gwybodaeth er mwyn prosesu eich cais. Rhaid i chi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.





Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect

Mae adran nesaf y ffurflen yn ymwneud â'ch Cynllun Prosiect. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd am gymorth grant gwblhau Cynllun Prosiect. Mae'r Cynllun Prosiect yn dempled safonol sydd ag wyth o benawdau.




Bydd yr wybodaeth a gyflwynwch dan bob un o'r penawdau hyn yn cael ei defnyddio yn ystod y broses asesu a gwerthuso, ac yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â dyfarnu cymorth grant i'r prosiect.

**Sylwer: os bydd angen mwy o wybodaeth, efallai y bydd hyn yn arwain at oedi cyn y gellir gwerthuso'r cais, felly argymhellwn eich bod yn dilyn y canllawiau'n ofalus er mwyn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, pe bai**

**unrhyw beth yn aneglur neu pe baem angen mwy o wybodaeth, byddwn yn cysylltu â chi.**

Mae’n bwysig nodi bod yn rhaid i’r manylion a gyflwynir ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur â chwmpas a graddfa’r prosiect arfaethedig.

Yn ôl at y Cynnwys

## Cynllun y Busnes/Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad

Ar y dudalen ‘Addasrwydd y Buddsoddiad’ bydd yn rhaid i chi gyflwyno manylion a fydd yn ein galluogi i werthuso pa mor briodol yw’r buddsoddiad.


Yn yr adran hon bydd angen i chi ddarparu disgrifiad o’r canlynol:

Eich busnes fferm, manylion y busnes a manylion yr arwynebedd a deiliadaeth y tir sy’n cael ei ffermio gan y busnes
Pob menter gan gynnwys nifer y da byw a’r trefniadau presennol ar gyfer cadw da byw dan do yn ystod y gaeaf.
Manylion y trefniadau storio presennol ar gyfer slyri a gwrtaith a gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth bresennol â’r gofynion sorio slyri sydd ynghlwm wrth Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

**Mae’n ofynnol eich bod yn cyflwyno tystolaeth o gyfrifiadau ynghylch capasiti storio slyri fel dogfen ategol.**

Mae angen i chi hefyd ddisgrifio’r prosiect a dylech gyflwyno diagramau, lluniau neu ffotograffau o’r lleoliad, er mwyn hwyluso’r gwaith o egluro lleoliad y prosiect. Dylai hyn gynnwys rhifau parseli tir a rhifau cyfeirnodau cynllunio os ydynt ar gael.





Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cynllun Busnes / Prosiect
- Addasrwydd Buddsoddi
- Cyflawni - y Prosiect Cyflawni
- Cyflawni - Risg a Rheoli Risg
- Cynaliadwyedd Hirdymor
- Gwerth am Arian
- Themâu Trawsbynciol
- Dangosyddion a Chanlyniadau
- Cyllid a Cydymffurfiad
- Rhestr o'r Dogfennau Atodol sydd eu hangen
- Cyflwyno

Rhowch fanylion am eich storfa slyri a thail gyfredol.

Rhowch fanylion*

0 / 4000

Darparwch yr wybodaeth ganlynol i ddangos eich bod yn cydymffurfio ar hyn o bryd â gofynion storio slyri Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Cyfanswm cyfaint, mewn metrau ciwbig, o slyri a gynhyrchir ar y daliad (gan gynnwys golchiadau parlwr a dŵr ffo claddfeydd silwair wrth fynd i mewn i'r storfa slyri).*

Cyfanswm glawiad blynyddol, mewn milimetrau, yn ystod y cyfnod gwaharddedig 5 neu 6 mis ar gyfer eich lleoliad? Gellir dod o hyd i lawiad ar gyfer eich lleoliad yn Ffigurau glawiad cyfartalog.*

Cyfanswm yr arwynebedd, mewn metrau sgwâr, o fuarthau budr ac ardaloedd storio tail heb do, lle mae dŵr glaw yn cymysgu â slyri neu'n mynd i'r storfa.*

Cyfanswm y capasiti storio slyri cyfredol ar gyfer eich daliad mewn metrau ciwbig.*


Gan ystyried yr uchod, beth yw cyfanswm y capasiti storio sydd ei angen ar gyfer eich daliad? (Slyri + dŵr glaw + bwrdd rhydd)*

**Cyflwyno tystiolaeth o gyfrifiadau capasiti storio slyri fel dogfennau ategol.**

Gellir defnyddio'r gweithlyfr canlynol i'ch cynorthwyo i ddangos gofynion capasiti storio slyri: Gweithlyfr Fferm
Mae canllawiau i gwblhau'r gweithlyfr ar gael yn: canllawiau Gweithlyfr Fferm

Atebwch un cwestiwn yn unig o'r cwestiynau a ganlyn os gwelwch yn dda:

Printio English



Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant

Atebwch un cwestiwn yn unig o'r cwestiynau a ganlyn os gwelwch yn dda:

1. Os nad ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd, rhowch esboniad o sut y bydd y buddsoddiad yn cefnogi'r fferm i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Esboniwch pa gapasiti storio slyri a / neu dail ychwanegol sydd ei angen.

Rhowch fanylion

0 / 4000

2. Os ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd, rhowch esboniad o sut y bydd y buddsoddiad yn cefnogi'r fferm i wella'r ffordd y mae'n rheoli maethynnau a gwella ansawdd dŵr, aer a phridd.

Rhowch fanylion

0 / 4000

Disgrifiwch y prosiect. Dylid cyflwyno diagramau, delweddau neu ffotograffau o'r lleoliad, er mwyn helpu i esbonio lleoliad y prosiect. Dylech gynnwys rhif y cae a'r cyfeirnod cynllunio os ydyw ar gael.



0 / 4000

2. Os ydych yn cydymffurfio ar hyn o bryd, rhowch esboniad o sut y bydd y buddsoddiad yn cefnogi'r fferm i wella'r ffordd y mae'n rheoli maethynnau a gwella ansawdd dŵr, aer a phridd.

Rhowch fanylion

0 / 4000

Disgrifiwch y prosiect. Dylid cyflwyno diagramau, delweddau neu ffotograffau o'r lleoliad, er mwyn helpu i esbonio lleoliad y prosiect. Dylech gynnwys rhif y cae a'r cyfeirnod cynllunio os ydyw ar gael.

Rhowch fanylion*

0 / 4000

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni’r Prosiect

Ar y dudalen ‘Cyflawni’r Prosiect’ byddwch yn cyflwyno’r cynllun gwaith y mae’r Busnes/Sefydliad yn bwriadu mynd i’r afael ag ef.


Yn yr adran hon, bydd yn rhaid i chi ddarparu’r canlynol:

- Disgrifiad o weithgareddau a buddsoddiadau allweddol a phwy fydd yn gyfrifol am gyflawni’r gweithgareddau hyn.
- Disgrifiad o sut y penderfynwyd ar amserlenni.
- Yr angen am gymeradwyaeth SAB; cyflwyno naill ai'r dogfennau cymeradwyo SAB neu dderbynneb gan yr awdurdod lleol nad oes angen cymeradwyaeth SAB.
- Cydymffurfio ag eitemau a ariennir â Gofynion Rheoliadol, gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol:
  - SSAFO;
  - Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) Cymru 2016;
  - BS 5502;
  - Caniatâd CNC/Awdurdod Lleol lle mae buddsoddiadau'n effeithio ar systemau storio slyri neu silwair neu a allai effeithio ar lif dŵr.

Bydd angen i chi ddarparu amserlenni ar gyfer cyflawni eich prosiect drwy gwblhau Gweithgareddau'r Prosiect.

Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.



Pan fyddwch wedi cwblhau'r cwestiynau cyntaf, bydd angen i chi ychwanegu Gweithgareddau'r Prosiect.  Dewiswch y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd** i fwrw ymlaen.




Ar ôl i chi ddewis y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd**, fe welwch y dudalen hon




Yma, rhaid i chi nodi enw’r Gweithgaredd, rhoi disgrifiad ohono, a nodi’r dyddiad dechrau a’r dyddiad gorffen ar ei gyfer a’r person sy’n gyfrifol amdano.  Yn syml, defnyddiwch fotwm y **calendr** i ychwanegu eich dyddiadau.  Ar ôl i chi gofnodi’r holl wybodaeth, dewiswch y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu gweithgaredd arall), neu’r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen).  Gallwch gofnodi cynifer o brosiectau ag y dymunwch.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni – Risg a Rheoli Risg

Ar y dudalen 'Cyflawni - Risg a Rheoli Risg' byddwch yn defnyddio tabl i grynhoi o leiaf pum prif risg a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect. Yn cynnwys:


- Beth yw'r risg a pha mor debygol yw hi o ddigwydd yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect?
- Beth fyddai'r goblygiadau i'r prosiect pe bai hyn yn digwydd?
- Pa gamau y gellir eu cymryd i geisio atal hyn rhag digwydd a beth ellir ei wneud i leihau'r effaith ar y prosiect pe bai'n digwydd?

Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiwn yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb ychwanegu o leiaf pum risg.




Cliciwch ar **Ychwanegu Risg** i ddechrau cofnodi eich risg gyntaf.

Ar ôl ichi wneud hynny, bydd y sgrin gofnodi a ganlyn yn ymddangos:




Ar ôl i chi gofnodi'r holl wybodaeth, dewiswch y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** er mwyn ychwanegu gweithgarwch arall, neu'r botwm **Safio a Dychwelyd** os ydych wedi gorffen.

Bydd yn rhaid i chi wneud hyn ar gyfer o leiaf pum risg wahanol.  Os na fyddwch yn nodi o leiaf pum risg, bydd neges gwall yn ymddangos, a dangosir ar y sgrin fod yr adran heb ei chwblhau, fel yn y sgrin lun isod:





Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor

Y dudalen Cynaliadwyedd Hirdymor yw’r dudalen lle rydych yn esbonio’r effaith y bydd y buddsoddiad yn cael ar gynaliadwyedd hirdymor y busnes.




Mae modd ymestyn y blwch testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau. Cadwch hyn mewn cof wrth lenwi eich ffurflen.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiwn yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb ei ateb.

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich ateb, dewiswch y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Gwerth am Arian

Ar y dudalen ‘Gwerth am Arian’ byddwch yn cyflwyno gwybodaeth am gostau a dyfynbrisiau’r Prosiect.

Dim ond eitemau buddsoddi sydd wedi'u dewis fel y'u cyflwynwyd yn eich Datganiad o Ddiddordeb y gellir eu nodi yn yr adran hon. Bydd yr eitemau buddsoddi a gyflwynir yn eich cais yn cael eu gwirio a bydd unrhyw ychwanegiadau'n cael eu dileu o'r gwerthusiad.

**I lenwi'r adran hon mae'n rhaid eich bod wedi cael dyfynbris ar gyfer pob eitem buddsoddiad. Os nad ydych wedi cael dyfynbrisiau erbyn cyflwyno'r cais bydd gofyn i chi ddarparu amcangyfrif o'r gwerth.**

**Ar gyfer eitemau sy'n werth llai na £1,000 nid oes angen dyfynbris, ar gyfer eitemau sydd werth rhwng £1,000 a £4,999 mae angen 1 dyfynbris neu amcangyfrif ac ar gyfer eitemau gwerth £5,000 neu fwy mae angen 3 o ddyfynbrisiau neu amcangyfrifon.**

Os ydych wedi derbyn dyfynbrisiau adeg cyflwyno'r cais yma mae'n rhaid i chi hefyd gyflwyno'r dystiolaeth ategol ar gyfer y dyfynbrisiau hynny.

**Nodwch os nad ydych yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer y dyfynbrisiau adeg cyflwyno'r cais bydd angen i chi wneud hynny cyn cyflwyno unrhyw hawliadau.**

**Rhaid i bob ymgeisydd gyfeirio at Nodiadau Canllaw Technegol Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chydymffurfio â hwy sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol Grantiau gwledig – Canllawiau tendro cystadleuol.**

Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau bod y broses dendro gystadleuol yn cael ei dilyn yn gywir, wedi'i dogfennu'n llawn a bod y ddogfennaeth ar gael ar gais.


Os ydych yn ystyried prynu offer ail-law ac yn ansicr sut i ddangos tystiolaeth gyda dyfyniadau, cysylltwch â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar 0300 062 5004 am gyngor.

Mae risg sylweddol y gellid adennill y grant yn llawn neu'n rhannol os na ddilynir y broses dendro gystadleuol yn gywir ac na chedwir dogfennau ategol.

Bydd archwiliadau gwerthuso o'r holl ddyfynbrisiau a gyflwynir yn cynnwys y canlynol:


- Cydymffurfio â gweithdrefnau a gofynion Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru;
- Rhesymoldeb costau;
- Y rheswm a'r sail resymegol a ddarperir gan yr ymgeisydd os nad y cyflenwr rhataf yw'r dyfyniad a ffefrir;
- Cymharedd ac amseroldeb dyfyniadau;
- Ymchwiliad pellach gydag ymgeisydd a/neu gyflenwr gan Lywodraeth Cymru os nodir unrhyw risg neu anghysondeb yn ystod y gwerthusiad.


Dangosir y dudalen 'Gwerth am Arian' gyntaf yn y sgrin lun isod.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau. Mae'n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.

Bydd yr holl eitemau buddsoddi a gyflwynir yn eich EOI yn cael eu rhagboblogi o dan y tab Eitemau Buddsoddi a Ddewiswyd EOI. Cliciwch **Addasu** i ychwanegu dyfynbris neu amcangyfrif ar gyfer eitem buddsoddi.






Os yw gwerth amcangyfrifol yr eitem yn llai na £1,000 dewiswch ‘Ydy’. Gan nad oes angen unrhyw ddyfynbrisiau pwyswch ‘Safio a Dychwelyd’ i ddychwelyd i’r sgrîn flaenorol.





Os yw gwerth amcangyfrifol yr eitem yn llai na £1,000 dewiswch ‘Nac ydy’. Yna bydd gofyn i chi ateb y cwestiwn ‘Oes gennych ddyfynbrisiau ar gyfer yr eitem?’ Os byddwch yn ateb ‘Na’ pwyswch ‘Safio a Dychwelyd’ i ddychwelyd i’r dudalen flaenorol.





Os byddwch yn dewis 'Oes' i'r cwestiwn 'Oes gennych ddyfynbrisiau ar gyfer yr eitem?' bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i chi ei chwblhau.





Dewiswch y botwm **Ychwanegu Dyfynbris** a byddwch yn gweld y dudalen ganlynol. Nodwch fanylion eich dyfynbris.




Os nad ydych ond yn ychwanegu un dyfynbris ar gyfer yr eitem buddsoddi yma bydd angen i chi ddewis y bocs ticio 'Dyfynbris a Ffefrir'.




Os ydych yn ateb ‘Oes’ i’r cwestiwn ‘Oes gennych chi neu rywun sydd ynghlwm wrth y Prosiect fuddiant gyda’r cyflenwr yma?’ bydd blwch testun yn agor i chi ar gyfer nodi manylion y camau y mae’r Busnes/Sefydliad wedi’u cymryd i liniaru’r buddiant yma. Mae’n rhaid i chi ateb y cwestiwnhwn er mwyn gallu symud ymlaen gyda’r cais.









Yna, cewch y dewis i ‘Safio’ neu ‘Safio a Dychwelyd’ at y dudalen Eitemau Buddsoddiad.

Unwaith y byddwch wedi dychwelyd i’r dudalen Eitemau Buddsoddiad bydd gwybodaeth am eich dyfynbris yn cael ei dangos.



Os yw gwerth eich dyfynbris yn fwy na £5,000, ac os mai un dyfynbris yn unig sydd gennych i'w gyflwyno, rhaid i chi roi tic yn y blwch i ddangos eich bod yn dymuno cyflwyno'r cais gyda llai na thri dyfynbris ar gyfer yr eitem buddsoddi hon. Bydd blwch testun yn ymddangos lle gallwch esbonio pam rydych yn cyflwyno llai na thri dyfynbris ar gyfer yr eitem buddsoddi hon.





Yna bydd gennych yr opsiwn i 'Safio' neu 'Safio a Dychwelyd' i'r dudalen Gwerth Am Arian.





# Y Grantiau Mwyaf a Lleiaf

Gan mai £50,000 yw'r grant mwyaf y gellir gwneud cais amdano ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, bydd y gwerthoedd a nodir yn y tabl dyfynbrisiau yn cael eu capio ar y swm hwn.
Enghraifft wedi'i gapio i £50,000.




| Cod | Disgrifiad | Amcangyfrif o Gyfanswm y Gost | Gwerth y Grant | |
|---|---|---|---|---|
| NM4 | Storfeydd tail dan orchudd | £10,000.00 | £5,000.00 | Addasu |
| NM11 | Toeon ar gyfer buarthau sy'n bodoli eisoes | £50,000.00 | £20,000.00 | Addasu |
| NM1 | Storfeydd a sianeli trosglwyddo tanlawr | £20,000.00 | £10,000.00 | Addasu |
| NM34 | Tanc slyri mewn cae | £10,000.00 | £4,000.00 | Addasu |
| NM14 | Tancer pwmp a Thaenwr Band neu 'trailing shoe' | £20,000.00 | £8,000.00 | Addasu |
| NM42 | Offer casglu a hidlo dŵr glaw. (uwchlaw arwyneb y tir) | £10,000.00 | £4,000.00 | Addasu |
| | | Gwerth y Grant Mwyaf | £51,000.00 | |

Enghraifft wedi'i gapio i gwerth y datganiad o ddiddordeb.



Cyfanswm Cost EOI (£) 37100.00

Eitemau Buddsoddi

I gwblhau'r adran hon mae'n rhaid eich bod wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem fel y manylir isod, os nad ydych wedi cael dyfynbrisiau mae'n rhaid i chi nodi gwerth amcangyfrifedig. Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o'r dyfynbrisiau hyn gyda'r cais hwn.

- Os yw gwerth eitem buddsoddi rhwng £1,000 a £4,999 mae angen un dyfynbris
- Os yw gwerth eitem buddsoddi yn £5,000 neu'n uwch mae angen tri dyfynbris

Cliciwch 'Addasu' i ychwanegu manylion dyfynbris neu amcangyfrif ar gyfer yr eitem fuddsoddi hon.

- Rydych wedi mynd dros werth y Datganiad o Ddiddordeb. Ni thelir grant sydd fwy na'r Gwerth a nodwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb.

| Cod | Disgrifiad | Amcangyfrif o Gyfanswm y Gost | Gwerth y Grant | |
|---|---|---|---|---|
| NM3 | Tanciau ar gyfer storio dŵr sydd ychydig yn frwnt | £35,000.00 | £17,500.00 | Addasu |
| NM5 | Systemau ar gyfer rheoli slyri | £6,000.00 | £3,000.00 | Addasu |
| NM6 | Claddfeydd silwair | £800.00 | £400.00 | Addasu |
| NM9 | Gorchudd plastig sy'n arnofio'n rhydd ar gyfer storfeydd slyri uwchben y ddaear | £7,400.00 | £3,700.00 | Addasu |
| NM7 | Storfeydd slyri Integredig | £30,000.00 | £15,000.00 | Addasu |
| | | Gwerth y Grant Mwyaf | £39,600.00 | |

Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]


# Cynllun y Busnes/Prosiect – Themâu Trawsbynciol

Ar y dudalen ‘Themâu Trawsbynciol’ byddwch yn cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â sut mae’r Prosiect arfaethedig yn cyfrannu at themâu trawsbynciol.  Yn yr adran hon bydd yn rhaid i chi esbonio sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol a ganlyn:


- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd;
- Mynd i’r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol;
- Yr Iaith Gymraeg.

Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 2000 nod. Sylwer mai nifer y nodau yw hyn ac nid nifer y geiriau.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.




Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.



Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun Busnes/Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau

Mae'n ofynnol i bob prosiect a gefnogir adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru yn unol â nifer o Ddangosyddion Perfformiad y cytunwyd arnynt.

Bydd y ffurflen ar-lein yn rhestru'r dangosyddion perthnasol a bydd angen i chi osod targedau yn unol â nhw.

Bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth ar gyfer y **Ddangosyddion** canlynol:

- Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu
- Nifer y swyddi a gafodd eu diogelu.
- Cyfaint y storfa slyri newydd osodwyd (metrau Ciwb).
- Arwynebedd y to a osodwyd (metrau sqwar).
- Nifer yr eitemau gwasgaru maethynnau yn fanwl sydd wedi'u cefnogi.

| **Enw Dangosydd Perfformiad** | **Diffiniad** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd | Cyfanswm nifer y swyddi parhaol a grëwyd (nid swyddi a gynhelir) drwy brosiectau a gefnogir sydd wedi'u mynegi cyfwerth ag amser llawn (FTE), yn ôl rhyw. Dim ond swyddi newydd a grëwyd mewn gwirionedd y dylid eu cyfrif, sy'n eithrio swyddi a gynhelir (fel rhai rhy broblemus i'w hasesu). Mae'n ymwneud â chyflogaeth pan fydd y prosiect ar waith, h.y. os yw'r prosiect yn creu siop fferm, nid yw'n cynnwys cyflogaeth a grëwyd yn ystod y cyfnod adeiladu dylunio/adeiladu – ymgynghorydd/pensaer/adeiladwyr, ond y gyflogaeth a grëir pan fydd y siop yn weithredol (rheolwr, cynorthwywyr gwerthu, etc). Ni ddylid cyfrif gwaith gwirfoddol ond mae hunangyflogaeth wedi'i chynnwys. Cyfrifir y dangosydd yn FTE; felly, os caiff swydd hanner amser bresennol ei thrawsnewid yn swydd amser llawn, gwerth y dangosydd yw 0.5 (ystyrir bod hanner swydd yn cael ei chreu). I gyfrif un swydd a grëwyd, dylai hyd y contract fod yn flwyddyn neu fwy (e.e. contract chwe mis ar 100% yw 0.5). Nid yw hyn yn cynnwys swyddi sydd wedi'u hadleoli.<br><br>Swyddi a ddiogelir yw lle gwyddys bod swyddi mewn perygl dros y 12 mis nesaf. Dylid sgorio swyddi fel FTE a pharhaol (gellir sgorio swydd dymhorol ar yr amod y disgwylir i'r swydd ddigwydd eto am gyfnod amhenodol; dylid cofnodi cyfran y flwyddyn a weithir hefyd). Dylid sgorio'r swydd ei hun nid amcangyfrif o faint o bobl a allai feddiannu'r swydd. Os nad yw'r swydd yn llawn amser yna bydd angen rhannu'r oriau yr wythnos â 30 i ganfod y |
| | gyfran FTE y mae'n cynrychioli (e.e. 18 awr yr wythnos fyddai 0.6 FTE). |
| Cyfaint y storfa slyri newydd osodwyd | Cyfaint mewn metrau ciwb (M3) storfa newydd neu ychwanegol newydd ar gyfer slyri a osodwyd er mwyn caniatáu ar gyfer y canlynol:<br><br>• Slyri a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod gwaharddedig (5 mis ar gyfer buchod godro a buchod eidion a 6 mis ar gyfer moch a dofednod)<br><br>• Glawiad cyfartalog ar gyfer y cyfnod gwaharddedig<br><br>• Byrddau rhydd |

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y to a osodwyd | Arwynebedd mewn metrau sgwâr (M2) to newydd a osodwyd dros:<br>• Mannau bwydo da byw<br>• Mannau cynnull da byw<br>• Storfeydd slyri<br>• Storfeydd silwair<br>• Storfeydd tail |
| Nifer yr eitemau gwasgaru maethynnau yn fanwl sydd wedi'u cefnogi | Nifer (unedau) yr eitemau canlynol:<br>• NM13 – Tancer slyri a hefyd chwistrellydd<br>• NM15 – Tancer gyda phwmp a hefyd chwistrellydd<br>• NM18 – Piben llinyn y bogail a hefyd chwistrellydd<br>• NM21 – Chwistrellydd (Slyri)<br>• NM22 – Peiriant rheoli ar gyfradd newidiol ar gyfer chwistrellwyr a lledaenwyr gwrtaith<br>• NM31 – GPS ar gyfer ffermio manwl<br>• NM32 – GPS a systemau llif ar gyfer gwasgaru slyri. |

# Dangosyddion a Chanlyniadau


Y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau yw lle byddwch yn darparu gwybodaeth am sut y caiff targedau eu cyrraedd ynghyd â monitro a chynnydd i fodloni Lefel y Dangosyddion.

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn orfodol ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch ffurflen heb eu hateb.





Dewiswch fotwm glas 'Ychwanegu Dangosydd' i ddarparu ymatebion i'r Dangosyddion Lefel


Dewiswch y Dangosydd Lefel yr hoffech ymateb iddo o'r rhestr sydd ar gael.





Unwaith y byddwch wedi dewis bydd gennych gwestiynau pellach i'w hateb.





Mae ymatebion i'r holl gwestiynau yn orfodol ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch ffurflen heb eu llenwi.






Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.



[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Ariannol a Chydymffurfio

Bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am agwedd ariannol a chydymffurfiaeth eich prosiect.


Bydd angen i chi roi eich esboniad a'ch tystiolaeth ategol o'r canlynol i'w gwerthuso.

- Sefyllfa ariannol y busnes, i gynnwys gorbenion ariannol a throsiant, problemau a phryderon.
- Sut y caiff y prosiect ei ariannu yn ogystal ag unrhyw ddyfarniad grant.
- Rhagolygon masnachu a sut y bydd y buddsoddiad yn effeithio ar berfformiad ariannol y busnes.
- Tystiolaeth y bydd y buddsoddiad ac unrhyw fuddsoddiad arfaethedig dilynol yn arbed arian neu'n lleihau costau ac unrhyw fanteision y byddai'n eu cynnig i'r busnes presennol.
- Sut y bydd y busnes yn fwy proffidiol a bod digon o elw ar gyfer y dyfodol h.y. elw mewn perthynas ag anghenion arian parod.
- Tystiolaeth a ddarparwyd sy'n dangos na fyddai'r prosiect, heb grant, yn mynd yn ei flaen.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu defnyddio hyd at 4000 nod. Sylwer mai nifer y nodau a ganiateir yw 4000, nid nifer y geiriau.
Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiynau yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb eu hateb.


Ar ôl i chi orffen cofnodi eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Rhestr o Ddogfennau Atodol sydd eu hangen

Ar y dudalen ‘Rhestr o’r Dogfennau Atodol sydd eu hangen’ ceir rhestr o’r holl ddogfennau mae’n rhaid i chi eu cyflwyno gyda’ch cais, ynghyd â rhestr o rai o’r dogfennau eraill y gall fod angen i chi eu cyflwyno i ategu eich cais, gan ddibynnu ar eich prosiect.




Rhaid i chi ddewis o leiaf un ffordd o gyflwyno dogfennau ategol er mwyn symud ymlaen i’r dudalen nesaf.




Ar ôl i chi orffen dewis eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Cyflwyno


## Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw Gamgymeriadau o fewn eich cais, ynghyd â Chrynodeb o’ch cais.

Mae’r sgrin lun a ganlyn yn dangos y negeseuon a fydd yn ymddangos pan fydd camgymeriadau:




Mae’r sgrin lun a ganlyn yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os nad oes camgymeriadau i’w cael:





Ni fydd y testun rydych wedi’i ysgrifennu yn unrhyw un o’r blychau testun mawr yn cael ei ddangos yn y fan hon, ond bydd i’w weld yn y crynodeb PDF a anfonir atoch trwy gyfrwng RPW Ar-lein ar ôl i chi gyflwyno eich cais yn llwyddiannus.

Mae’r sgrin lun canlynol yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os bydd camgymeriadau i’w cael. Tynnir eich sylw at y camgymeriadau hyn er mwyn i chi allu eu cywiro.





Ar ôl i chi wirio’r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys]

# Datganiad ac Ymrwymiadau


Rhaid i chi ddarllen yr adran ‘Datganiad ac Ymrwymiadau’ a welwch yn y sgrin lun isod. Ar ôl i chi wneud hyn, ticiwch y blwch ar waelod y sgrin i gadarnhau eich bod yn cytuno â nhw, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Ar ôl i chi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau, **ticiwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf** i fynd i’r dudalen ‘Cyflwyno’.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cyflwyno

I gyflwyno eich Ffurflen Gais ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.




Ar ôl i'ch cais gael ei gyflwyno, fe welwch y dudalen 'Cadarnhad', a gallwch argraffu copi o'r dudalen hon ar gyfer eich cofnodion trwy ddewis y botwm **Printio'r Sgrin Hon**.




Yn awr, gallwch ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** er mwyn cael eich tywys yn syth at eich tudalen Negeseuon ar RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael**.

**Sylwer:** Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau a ddewiswyd gennych.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Gais ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau yn cael ei ychwanegu at eich tudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ati'n ofalus i wirio'r wybodaeth a gyflwynwyd. Pe bai unrhyw ran o'r wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y dewch o hyd i unrhyw wybodaeth anghywir.

Os cewch broblemau neu os na allwch gael mynediad at ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, bydd yn cael ei asesu i weld a yw'n gymwys, bydd yn cael ei sgorio, ac os caiff ei ddewis bydd yn cael ei werthuso'n llawn ar gyfer ystyried cynnig contract iddo. Bydd y broses asesu'n ystyried unrhyw ddogfennau ategol a gyflwynir, pan fo hynny'n briodol.

Cewch wybod trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein a yw eich cais wedi'i ddewis ac a fydd yn cael ei werthuso'n llawn ar gyfer ystyried cynnig contract iddo.

Yn achos ceisiadau na fyddant yn llwyddiannus yn ystod y broses ddethol, rhoddir gwybod i chi trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau, oherwydd gall methu â gwneud hynny arwain at oedi cyn gwerthuso'r cais.

Yn ôl at y Cynnwys

# Cysylltiadau

## RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i **RPW Ar-lein**. Os nad ydych wedi cofrestru eto ag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

## Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r **Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.**

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein unrhyw bryd.

### Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i **wefan Llywodraeth Cymru**. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad